

Y Casglwr

Rhif 72

Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

HAF 2001

Thomas Sims (1826–1910), arloeswr ffotograffiaeth gan R. Elwyn Hughes

Bu'r naturiaethwr enwog Alfred Russel Wallace yn gweithio fel tirfesurydd yng nghyffiniau Castell-nedd o 1841 hyd 1848. Tua diwedd y cyfnod hwn ymunodd ei fam a'i chwaer ag ef a bu'r teulu yn byw am flwyddyn neu ddwy yn Llantwit Cottage yn ymyl camlas Castell-nedd. Cyn hynny, bu Wallace a'i frawd yn lletya yn nhŷ teulu'r Sims yng nghanol y dref. Yn gynnar yn 1849, priododd Fanny (Frances), chwaer Wallace, â Thomas Sims, mab hynaf y Simsiaid. Yn ôl Wallace, '[Sims] had already taught himself the then undeveloped art of photography' gan lwyddo i gynhyrchu ei ffotograff cyntaf yn 1847.

Symudodd y par priod i Weston-Super-Mare a cheisiodd Sims ennill ei fywoliaeth drwy agor stiwdio ffotograffiaeth yno, ond ymhen ychydig dros flwyddyn, symudasant yn ôl i Abertawe (tref enedigol Sims); yn ôl Cyfrifiad 1851 yr oeddynt erbyn hynny yn byw yno yn Belle Vue Street a Sims yn ei ddisgrifio ei hunan fel 'photographic artist'. Roedd Thomas Sims yr adeg honno yn 26 oed a Fanny ei wraig (a ddisgrifiwyd fel 'government teacher') yn 32 oed. Cofier mai yn ystod y pedwar degau hefyd yr oedd John Dillwyn Llewelyn (sydd wedi'i ddisgrifio fel 'y ffotograffydd cyntaf yng Nghymru') hefyd yn weithgar yn yr un cylch.

Erbyn 1853 yr oedd Sims a'i wraig wedi symud i Lundain a Sims yn dal i weithio fel ffotograffydd proffesiynol. Bu ganddo hefyd ddiddordeb mewn celfyddyd yn gyffredinol ac mewn arlunio ac y mae ar gael lythyr hir ato oddi wrth Wallace, a oedd ym Malaysia ar y pryd, yn trafod y berthynas rhwng ffotograffiaeth ac arlunio. Pan ddychwelodd Wallace i Lundain o'i deithiau yn Ne America, cafodd fenthyg stiwdio Sims i arddangos rhai o'i sbesimenau.

Cydweithiwr â Wallace yn Ne America, ac yn gryn gyfaill iddo oedd Walter Henry Bates y naturiaethwr. O 1864 hyd 1892 bu Bates yn is-ysgrifennydd i'r Gymdeithas Ddaearyddol (Frenhinol). Mae ym meddiant y Gymdeithas ddarlun olew o Bates sy'n dwyn y geiriau 'Henry Walter Bates, FRS, Assistant Secretary, R.G.S., painted on his return from the Amazons [1859] by Thomas

Sims'. Ymddengys fod gan Wallace gryn feddwl o alluoedd ffotograffig ei frawd yng nghyfraith ac mae'n debyg mai ef oedd y ddolen gyswllt rhwng Sims a Bates. Ond llai llwyddiannus oedd cais Wallace i sicrhau trefniant cyffelyb rhwng Sims a Charles Darwin. Yn 1865 ysgrifennodd Wallace at Ddarwin yn ei annog i ymweld â Sims yn ei stiwdio yn 73 Westborne Grove i gael tynnu ei lun.

Ond pur gyndyn oedd Darwin i feithrin unrhyw fath o ddelwedd gyhoeddus, a hyd y gwyddys, ni ddaeth dim byd o'r awgrym.

Symudodd Sims i Tunbridge Wells i fyw 'in the strictest retirement and unknown to the present generation'. (a dyfynnu o'r nodyn am ei farwolaeth yn y *Kent and Sussex Courier*, Tachwedd 18 1910). Gadawodd ar ei ôl gryn nifer o ddogfennau, lluniau a dyddiaduron ynghyd â fersiwn llawysgrif o'i hunangofiant arfaethedig. Pan fu farw yn 1910 aeth y rhain i gyd i feddiant 'rhyw foneddiges anhysbys



Thomas Sims (1826–1910)

a oedd wedi'i gynorthwyo yn ei waith cynnar'.

Bellach, mae fel pe bai'r cyfan wedi diflannu. Ni lwyddwyd i leoli ei bapurau yn yr un o'r prif lyfrgelloedd. Llwyddwyd i gael gan Archifdy Tunbridge Wells gopi o lun o Sims sydd ym meddiant yr Archifdy ac sy'n dwyn yr arysgrif 'Mr Thomas Sims... taken c. 1900 by his nephew William Sims' ond dyna'r cyfan.

Byddai llwyddo i ddod o hyd i bapurau coll Sims o gryn ddiddordeb, nid yn unig o safbwynt hanes cynnar ffotograffiaeth yng Nghymru ond hefyd oherwydd y goleuni a allent daflu ar fywyd a gweithgareddau Wallace, ei frawd yng nghyfraith, yn ystod ei flynyddoedd ffurfiannol yng Nghastell-nedd. Bu rhywun wrth benelin Wallace yn 1905 yn cywiro iaith y dyfyniadau Cymraeg yr oedd Wallace am eu cynnwys yn ei hunangofiant. Tybed nad Thomas Sims oedd hwnnw? Gresyn o beth fod cynifer o bethau ar goll, a'n gwybodaeth am Thomas Sims, o ganlyniad, mor fylchog!

Rwy'n dra diolchgar i Iwan M. Jones o'r Llyfrgell Genedlaethol a Jean Mauldon o Lyfrgell Tunbridge Wells am gyflenwi deunydd a gorfforwyd yn y sylwadau hyn.